

**Cydweithio rhwng ysgolion a
dosbarthiadau chwech a Cholegau Addysg
Bellach i gyflwyno darpariaeth hyblyg o
ansawdd uchel sy'n ehangu dewis ac yn
sicrhau gwerth am arian**



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALLau);
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- ▲ AALLau;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ dysgu yn y gwaith;
- ▲ cwmnïau gyrfaoedd; ac
- ▲ elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2006: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cyflwyniad	1
Prif ganfyddiadau	3
Argymhellion	6
Pam mae dosbarthiadau chwech a cholegau AB yng Nghymru yn cydweithio?	7
Pam mae ysgolion a cholegau yn cydweithio?	7
Pam mae ysgolion a cholegau yn penderfynu peidio â chydweithio?	8
Sut mae dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau AB yn cydweithio yng Nghymru heddiw?	9
Beth yw'r gwahanol fathau o gydweithio rhwng ysgolion a cholegau?	9
Faint o gydweithio sy'n digwydd rhwng ysgolion a cholegau?	10
Beth yw effaith y gweithgareddau cydweithio?	11
Pa mor dda y mae'r trefniadau cydweithio presennol yn gweithio ?	14
Beth yw barn dysgwyr am eu profiadau mewn ysgolion a cholegau?	15
Pa ffactorau sy'n hyrwyddo ac yn rhwystro cydweithio?	16
Pa ffactorau anogodd ddatblygiad y trefniant cyfredol?	16
Pa ffactorau rwystrodd ddatblygiad y trefniant cyfredol?	17

Cyflwyniad

- 1 Cyhoeddodd Estyn adroddiad ar 'Ddarpariaeth Ôl-16 mewn ysgolion – ffactorau sy'n dylanwadu ar allu dosbarthiadau chwech ysgolion i fodloni anghenion a dyheadau dysgwyr' (Estyn 2005) a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at gydweithio rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau addysg bellach (AB). Roedd yr adroddiad hwnnw:
 - yn disgrifio rhai o'r anawsterau a'r heriau sy'n gysylltiedig â chydweithio;
 - yn dangos, er gwaetha'r heriau hyn, bod ysgolion a cholegau AB mewn rhai ardaloedd yn dechrau cydweithio mwy; ac
 - yn amlinellu rhai o nodweddion y cydweithio hwnnw.
- 2 Mae'r adroddiad hwn yn parhau â'n gwaith ar gydweithio trwy ganolbwyntio ar y cydweithio sy'n digwydd rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau AB. Nid ydym yn cynnwys mathau eraill o gydweithio, er enghraifft, mentrau rhwng ysgolion a cholegau ar gyfer dysgwyr 14 oed ac 16 oed, rhwng ysgolion ac ysgolion eraill, neu rhwng ysgolion a darparwyr dysgu yn y gwaith.
- 3 Mae'r adroddiad hwn yn archwilio pam a sut mae dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau AB yn cydweithio a pha ffactorau sydd naill ai'n hyrwyddo neu'n rhwystro'r gwaith hwn. Mae'r adroddiad yn arfarnu effeithiolrwydd y gwahanol fathau o gydweithio yng Nghymru hefyd.
- 4 Mae dogfen ymbaratoi Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Y Wlad sy'n Dysgu' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2001), am i Gymru fod yn wlad lle mae:
 - dysgu yn rhan o fywyd gwaith a bywyd hamdden bob dydd; a lle mae
 - anghenion dysgwyr yn dod yn gyntaf.
- 5 Yn benodol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno:
 - trawsnewid y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed; a
 - chael gwared ar rwystrau a hyrwyddo mwy o fynediad at ddysgu.
- 6 I fynd â'r gwaith hwn ymhellach, cyhoeddwyd 'Canllawiau Llwybrau Dysgu 14-19'(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cylchlythyr 37/2004) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hwn yn ceisio:
 - gwella ac ymestyn profiadau dysgu pob person ifanc;
 - codi disgwyliadau; a

Cydweithio rhwng ysgolion a dosbarthiadau chwech a Cholegau Addysg Bellach i gyflwyno darpariaeth hyblyg o ansawdd uchel sy'n ehangu dewis ac yn sicrhau gwerth am arian

- gweithio tuag at y targed, sef bod 95% o bobl ifanc yn barod ar gyfer cyflogaeth medrau uchel neu addysg uwch erbyn 2015.

7 Yn ogystal, mae ELWa¹ yn ymgymryd â gwaith yn y sector 16 i 19 trwy'r:

- Gronfa Fuddsoddi Gyffredin sy'n cefnogi nifer o brosiectau i sicrhau mwy o gydweithio rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed; a
- phrosiectau Braenaru Daearyddol sy'n adolygu'r ddarpariaeth gyfredol mewn chwe rhan o Gymru ac yn awgrymu ffyrdd o'i gwella.

8 Mae'r adroddiad hwn yn archwilio sut y gall cydweithio rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau AB helpu i gael gwared ar y rhwystrau a hyrwyddo mwy o fynediad at ddysgu, tra'n arwain at welliant yng nghyflawniadau pobl ifanc ar yr un pryd.

9 Wrth lunio'r adroddiad, fe wnaeth arolygwyr Estyn:

- ymchwilio i'r llenyddiaeth sydd ar gael ar gydweithio rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau AB;
- cyfweld â swyddogion yn ELWa;
- ymweld ag 20 ysgol ac 17 coleg AB i gyfweld â staff allweddol a dysgwyr;
- adolygu tystiolaeth arolygu am safonau ac ansawdd dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau AB; a
- dadansoddi gwybodaeth am berfformiad dysgwyr.

¹ Dyma'r enw brand ar y cyd ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Prif ganfyddiadau

- 10 Mae dosbarthiadau chwech a cholegau yn cydweithio'n bennaf er mwyn:
- cynyddu'r dewis o gyrsiau a phynciau sydd ar gael i ddysgwyr;
 - ymateb i naill ai blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru neu fentrau ELWa;
 - helpu ysgolion i gynnal eu dosbarthiadau chwech; a
 - bodloni dyheadau dysgwyr yn fwy effeithiol.
- 11 Ar y cyfan, nid gwella ansawdd y ddarpariaeth a chodi'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yw'r prif resymau na'r rhesymau pwysicaf dros gynnal gweithgareddau cydweithio. Mae'r Gronfa Fuddsoddi Gyffredin wedi arwain at drefniadau cydweithio newydd, ond mae yna ansicrwydd ynghylch a ydynt yn gynaliadwy pan ddaw'r cyllid i ben.
- 12 Lle ceir ychydig iawn o gydweithio rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau, neu ddim cydweithio o gwbl, y prif resymau yw:
- anawsterau trefnu cludiant, o ran cost ac amser;
 - cystadleuaeth ar gyfer dysgwyr, a diffyg ymddiriedaeth rhwng ysgolion a cholegau;
 - dewis llawer o ysgolion sy'n dymuno cynnal eu dosbarthiadau chwech er mwyn cadw niferoedd a lefelau staffio;
 - anawsterau sy'n gysylltiedig ag amserlennu sesiynau addysgu;
 - goblygiadau cydweithio i ymreolaeth ysgolion a cholegau unigol; ac
 - absenoldeb corff strategol i gynllunio darpariaeth ar draws ardal ddaearyddol.
- 13 Ysgolion, yn hytrach na cholegau, sy'n elwa fwyaf ar gydweithio. Mae cydweithio yn galluogi ysgolion i gadw mwy o ddysgwyr yn eu dosbarth chwech na'r hyn fyddai wedi digwydd fel arall.
- 14 Ar y cyfan, ychydig iawn o gydweithio a geir rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau yng Nghymru. Dim ond tua 36% o ysgolion sydd â dosbarthiadau chwech yng Nghymru sy'n cydweithio â cholegau. Mae hyn yn bennaf yn cynnwys darparu nifer fach o gyrsiau Safon Uwch (U) ar gyfer tua 5% o'r dysgwyr mewn dosbarthiadau chwech. Ychydig iawn o weithgarwch cydweithio a geir ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg neu ar gyfer dewisiadau galwedigaethol.

- 15 Er ei fod y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn, mae yna gydweithio cynyddol rhwng ysgolion a cholegau yng nghyfnod allweddol 4 a rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion.
- 16 Mae datblygiadau yng nghyfnod allweddol 4 yn helpu dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus am eu haddysg a'u hyfforddiant yn 16 oed.
- 17 Gallai cydweithio rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau arwain at werth gwell am arian trwy ddileu rhai grwpiau addysgu aneconomaidd. Fodd bynnag, caiff y manteision eu gwrthbwysio weithiau gan yr angen i ddysgwyr deithio ymhellach. Mae trefniadau cydweithio hefyd yn golygu amser a chostau ychwanegol ar gyfer cynllunio, cydlynu, rheoli a gweinyddu.
- 18 Mae ad-drefnu'r ddarpariaeth ddysgu mewn ardal, yn enwedig mewn ardaloedd trefol a mwy cywasgedig yn ddaearyddol, yn ffordd well o wella effeithlonrwydd. Mewn ardaloedd mwy gwledig, byddai yna fantais hefyd mewn ad-drefnu darpariaeth dosbarth chwech trwy ddod â dosbarthiadau chwech at ei gilydd. Gallai'r eithriadau i hyn gynnwys darparwyr o ansawdd eithriadol o uchel neu ddarparwyr addysg cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd cyfrwng Saesneg.
- 19 Os oes cydweithio am ddigwydd rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau, rhaid bod yna asesiad clir o'r manteision i ddysgwyr, nid yn unig o ran cynyddu'r dewis sydd ar gael iddynt, ond hefyd wrth helpu i wella ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr.
- 20 Mae tua hanner y trefniadau cydweithio presennol yn gweithio'n dda, ond ychydig ohonynt sydd â threfniadau wedi'u ffurfioli, cynlluniau strategol datblygedig a chydlynu effeithiol. Ychydig iawn sydd â gweithdrefnau priodol ar gyfer sicrhau ansawdd y trefniadau. Mae dysgwyr yn gwneud cystal ag y gallent ei ddisgwyl o leiaf yn llawer o'r partneriaethau sefydledig. Fodd bynnag, mewn lleiafrif sylweddol ohonynt, nid yw dysgwyr yn cyflawni canlyniadau a ragwelwyd mewn arholiadau.
- 21 Mewn trefniadau cydweithio a threfniadau lle nad oes cydweithio, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gyffredinol fodlon â'u cyrsiau a chyda'r cymorth a'r arweiniad a gânt. Mae tua dau o bob tri dysgwr yn teimlo y cawsant wybodaeth ddefnyddiol i'w helpu i ddewis eu cwrs, ond teimlai eraill bod y wybodaeth a gawsant yn annigonol. Teimlai nifer fach eu bod wedi cael cyngor unochrog.
- 22 Dyma'r ffactorau pwysicaf sy'n annog cydweithio rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau yng Nghymru:
 - dylanwad polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru neu ELWa;
 - y berthynas gadarnhaol rhwng ysgolion a cholegau;
 - amgyffrediad a rennir mewn ysgolion a cholegau bod angen ehangu dewis y cwricwlwm;
 - lleoliad yr ysgolion a'r colegau mewn ardal ddaearyddol gywasgedig; a'r

Cydweithio rhwng ysgolion a dosbarthiadau chwech a Cholegau Addysg Bellach i gyflwyno darpariaeth hyblyg o ansawdd uchel sy'n ehangu dewis ac yn sicrhau gwerth am arian

- disgwyliad gan staff ysgol am effeithiau system cynllunio a chyllido newydd ar gyfer dysgwyr ôl-16.

- 23 Nid yw'r mecanweithiau cyllid presennol yn helpu ysgolion a cholegau i gydweithio. Mae'r gwahanol ffrydiau cyllid ar gyfer darpariaeth cyn-16 ac ôl-16 a'r ffaith nad yw Rhwydweithiau Ardal Leol yn rheoli cyllid craidd yn rhwystro mwy o gydweithio.
- 24 Nid yw ysgolion yn gwneud digon i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael cyngor diduedd wrth ddewis eu cyrsiau pan fyddant yn 16 oed. Hefyd, nid yw ysgolion yn rhoi profiadau o'r math o gyrsiau a ffurfiau ar addysgu a dysgu i ddysgwyr a fyddai ar gael iddynt mewn coleg.

Argymhellion

Dylai **Llywodraeth Cynulliad Cymru**:

- A1 greu cyrff cynllunio a all wneud penderfyniadau strategol am natur darpariaeth mewn ardal;
- A2 sicrhau bod mwy o gysondeb rhwng y mecanweithiau cyllid ar gyfer darpariaeth cyn-16 ac ôl-16;
- A3 darparu cyllid cynaliadwy ar gyfer partneriaethau a gweithgareddau cydweithio sy'n cefnogi cynllunio a gweithredu'r Llwybrau Dysgu 14-19; ac
- A4 annog AALlau i weithio gyda'r holl bartneriaid i annog natur darpariaeth yn eu hardal.

Dylai **AALlau**:

- A5 weithio gyda'r holl bartneriaid i adolygu natur y ddarpariaeth yn eu hardal a darparu cynlluniau clir, cost effeithiol ac ymarferol trwy'r Rhwydweithiau Ardal Leol 14-19 sy'n sicrhau dewis ehangach, ansawdd gwell a safonau uwch yn unol â model y fenter Llwybrau Dysgu 14-19.

Dylai **ysgolion a cholegau**:

- A6 weithio gyda'i gilydd er lles dysgwyr yn eu hardal trwy helpu i resymoli a chydlynu darpariaeth;
- A7 archwilio'r modd y gall gweithgareddau cydweithio gynyddu ystod y cyrsiau galwedigaethol cyffredinol a gynigir; a
- A8 sicrhau bod trefniadau cydweithio:
 - yn mynegi gweledigaeth strategol glir a chytûn mewn cytundebau partneriaeth;
 - yn bwydo i'r cynlluniau datblygu Rhwydweithiau Ardal Leol 14-19 a'r ddewislen dewisiadau lleol;
 - yn canolbwyntio ar godi safonau er lles dysgwyr;
 - yn cynnwys arfarniad llawn a phriodol o gyflawniadau dysgwyr, gan gynnwys y gwerth ychwanegol ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu; a'u bod
 - yn cael eu cydlynu'n effeithlon ac yn economaidd.

Dylai **ysgolion**:

- A9 sicrhau bod dysgwyr yn cael gwybodaeth a chyingor llawn, teg a diduedd am y dewisiadau sydd ar gael iddynt pan fyddant yn 16 oed.

Pam mae dosbarthiadau chwech a sefydliadau AB yng Nghymru yn cydweithio?

Pam mae ysgolion a cholegau yn cydweithio?

- 25 Y prif reswm pam mae ysgolion a cholegau yn cydweithio yw er mwyn **cynyddu'r dewis o gyrsiau a phynciau** sydd ar gael i ddysgwyr. Nod darparwyr yw ehangu'r cwricwlwm trwy gynnig ystod ehangach o bynciau Safon Uwch na'r hyn fyddai ar gael fel arfer, ac mewn rhai achosion, rhai dewisiadau galwedigaethol hefyd. Ychydig iawn o ysgolion a cholegau sy'n cydweithio er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr gymysgu cyrsiau galwedigaethol a chyffredinol.
- 26 Mae ysgolion a cholegau wedi dechrau ystyried rhyw ffurf ar gydweithio wrth ymateb naill ai i **flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru** neu i **fentrau ELWa**. Mae llawer o ddarparwyr yn sôn bod argaeledd y Gronfa Fuddsoddi Gyffredin gan ELWa neu'r grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn rhesymau pwysig pan y maent wedi dechrau cydweithio. Mae'r cyllid ychwanegol wedi helpu i sefydlu nifer o drefniadau cydweithio. Fodd bynnag, mae yna ansicrwydd ynghylch p'un a all y trefniadau hyn barhau pan ddaw'r cyllid i ben.
- 27 Mae llawer o ysgolion eisiau cydweithio er mwyn **cynnal eu chweched dosbarth**. Mae'r ysgolion hyn yn ystyried cydweithio yn ffordd o barhau i gynnig pynciau Safon Uwch, fel cerddoriaeth, nad ydynt yn denu niferoedd mawr, a chyflwyno pynciau, er enghraifft, y gyfraith, seicoleg a chymdeithaseg, na all ysgolion eu darparu ar eu pen eu hunain. Credant fod hyn yn eu galluogi i gadw dysgwyr a fyddai fel arall wedi mynd i ddarparwyr eraill.
- 28 Mae rhai ysgolion wedi dechrau ymgymryd â gweithgareddau cydweithio er mwyn darparu cyrsiau sy'n **bodloni anghenion a dyheadau dysgwyr yn well**. Mae staff ysgolion yn teimlo y bydd hyn yn arwain at gynnydd yng nghyfran y dysgwyr sy'n aros mewn addysg a hyfforddiant amser llawn ac felly'n helpu i wella cyfraddau cyfranogiad, cadw a chwblhau.
- 29 Ar y cyfan, nid gwella **ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau** yw'r prif reswm na'r rheswm pwysicaf dros gynnal gweithgareddau cydweithio. Ychydig iawn o ystyriaeth, os o gwbl, a roddwyd i a fyddai cydweithio yn arwain at wella ansawdd a safonau.
- 30 Nid oes gan ysgolion a cholegau yng Nghymru safbwynt unigol ar ddarpariaeth ar draws ardal ddaearyddol. Nid ydynt yn ystyried bod lleihau cystadleuaeth ddi-fudd trwy gyfuno dosbarthiadau bach a gwneud defnydd gwell o adnoddau arbenigol yn flaenoriaeth. Mae hyn oherwydd eu bod yn cynllunio'u darpariaeth ar wahân oddi wrth eu darparwyr cyfagos gan mwyaf. Canlyniad hyn yw eu bod yn tueddu i gynnal darpariaeth bresennol, hyd yn oed lle mae hyn yn arwain at ddyblygu diangen ac aneffeithlonrwydd a phan fydd diffyg cydweithio ag eraill yn cyfyngu dewisiadau dysgwyr.

Pam mae ysgolion a cholegau yn penderfynu peidio â chydweithio?

- 31 Y prif reswm pam mai ychydig iawn o gydweithio sydd, os o gwbl, mewn rhai ardaloedd yw bod **diffyg ymddiriedaeth** rhwng ysgolion a cholegau. Daw'r diffyg ymddiriedaeth hwn yn rhwystr sy'n atal ysgolion a cholegau rhag dod at ei gilydd i sefydlu trefniadau cydweithredol. Yn yr enghreifftiau hyn, yn aml mae yna hanes o gystadleuaeth i ddysgwyr ac mae'r ddau set o ddarparwyr yn awyddus i gofrestru cynifer o ddysgwyr ag sy'n bosibl. Mewn rhai achosion, mae ysgolion a cholegau yn gweld bod ganddynt ddiwylliannau gwahanol i'w gilydd ac mae hyn yn cyfrannu at y diffyg ymddiriedaeth hwn. Mae yna amgyffrediad bod ysgolion yn oramddiffynnol o fyfyrwyr chweched dosbarth a'u bod yn dymuno 'tywys' dysgwyr trwy eu cyrsiau, lle canfyddir bod colegau yn ehangwyr ac yn rheibus mewn modd amhriodol. Mewn nifer o achosion, mae profiad gwael ysgolion o ddarpariaeth flaenorol y coleg ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed wedi niweidio'u hymddiriedaeth ynddi.
- 32 Rheswm yr un mor bwysig pam nad yw ysgolion a cholegau yn cydweithio yw'r anawsterau sy'n cael eu creu gan **gludiant**. Mae hyn yn digwydd yn enwedig, ond nid yn unig, mewn ardaloedd daearyddol mwy sydd â phoblogaeth fach a gwasgareddig. Fodd bynnag, mae hefyd yn wir pan fo rhwydweithiau cludiant yn annigonol neu lle nad yw cludiant yn cael ei gynnal mor brydlon ac mor ddibynadwy ag y dylai.
- 33 Ystyrir bod anawsterau ag **amserlennu**, heblaw lle mae'r ddarpariaeth trwy sesiwn 'cyfnos' a gynhelir ar ôl oriau addysgu arferol, yn rheswm pwysig arall dros beidio â chydweithio. Rhaid i amserlenni dosbarthiadau chwech ysgolion ddarparu ar gyfer grwpiau oedran eraill yn yr ysgol ac mae hyn yn rhwystro'u gallu i ddarparu'r cyfnodau addysgu hwy sydd eu hangen i gynnal gweithgareddau cydweithio.
- 34 Mae nifer o ysgolion wedi sefydlu eu **cyrsiau galwedigaethol eu hunain** ac nid ydynt yn teimlo bod angen cydweithio â'r coleg. Mewn rhai achosion, mae'r ddarpariaeth hon yn cystadlu'n uniongyrchol â'r coleg lleol. O bryd i'w gilydd, addysgir y cyrsiau galwedigaethol hyn gan staff nad ydynt yn arbenigwyr yn y pwnc ac mewn ystafelloedd nad oes ganddynt gyfleusterau ac offer digonol. Yn yr un modd, mae rhai colegau addysg bellach cyffredinol yn **darparu cyrsiau Safon Uwch** sy'n denu niferoedd bach o ddysgwyr, mewn cystadleuaeth uniongyrchol ag ysgolion cyfagos.
- 35 Mewn nifer o achosion, mae ysgolion a cholegau yn manteisio ar eu statws fel **sefydliadau ymreolaethol**. Maent yn defnyddio'u hymreolaeth i wneud penderfyniadau er lles eu sefydliadau eu hunain ac nid ydynt yn gweld yr angen i ddatblygu trefniadau cydweithio.
- 36 Mae rhai ysgolion yn ystyried y galw am fwy o gydweithio yn fygythiad i gael gwared ar eu dosbarth chwech. Mae'r ysgolion hyn yn ofni y bydd mwy o gydweithio yn dechrau proses ddi-droi'n-ôl a fydd yn y pen draw'n arwain at gael gwared ar eu chweched dosbarth.

Sut mae dosbarthiadau chwech ysgolion a sefydliadau AB yn cydweithio yng Nghymru heddiw?

Beth yw'r gwahanol fathau o gydweithio rhwng ysgolion a cholegau?

- 37 Mae'r tabl canlynol yn disgrifio'r gwahanol ffyrdd y gallai ysgolion a cholegau gydweithio. Mae'r golofn ar yr ochr dde sydd â'r teitl 'cyfran y ddarpariaeth ledled Cymru' yn dosbarthu pob un o'r 170 o ysgolion yng Nghymru sydd â chweched dosbarth.

Gwahanol fathau o gydweithio

Math	Nodweddion	Cyfran y ddarpariaeth ledled Cymru
Cystadleuaeth neu arwahanrwydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae ysgolion a cholegau yn gweithio ar wahân oddi wrth ei gilydd. Yn aml, mae cystadleuaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16. Yn aml, nid yw dysgwyr yn cael gwybodaeth ac arweiniad teg a chytbwys am bob dewis ôl-16. Nid yw ysgolion yn caniatáu i golegau roi gwybodaeth lawn i'r rhai sy'n gadael yr ysgol. Yn gyffredinol, mae diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth rhwng sefydliadau unigol. Mae amgyffrediaidau ysgolion a cholegau yn aml yn seiliedig ar ystrydebau ac adroddiadau ail-law. 	64% (109 ysgol)
Cydweithrediad	<ul style="list-style-type: none"> Mae yna rywffaint o gysylltedd trwy rwydweithiau ffurfiol neu anffurfiol. Caiff gwybodaeth ei chyfnwid a'r cyrsiau sydd ar gael eu mapio mewn modd cydweithredol. Mae'r ddwy ochr yn sylweddoli bod angen iddynt wneud mwy ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn yr ardal, a gwneud cyflwyno ôl-16 yn fwy effeithlon ac effeithiol. Caiff colegau fynediad at nosweithiau agored mewn ysgolion i roi gwybodaeth i'r rhai sy'n gadael yr ysgol. Maent yn gweithio gyda'i gilydd rhywfaint ar raddfa fach, er enghraifft, mae dysgwyr yn yr ysgol yn astudio rhai pynciau yn y coleg, ar ôl yr ysgol neu drwy fideo-gynadledda. Mae canlyniadau'n aros gydag ysgolion. 	32% (54 ysgol)
Cydlynu a chydweithio	<ul style="list-style-type: none"> Mae ysgolion yn rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ddysgwyr cyn-16 am yr ystod lawn o ddewisiadau sydd ar gael. Mae rhai dysgwyr yn mynychu cyrsiau yn y coleg yn ystod y diwrnod ysgol. Mae colegau ac ysgolion yn rhannu rhai aelodau staff i gyflwyno cyrsiau ar safleoedd ei gilydd. Caiff darpariaeth unedau neu gyrsiau astudio ei rhesymoli ar draws darparwyr er mwyn osgoi dyblygu diangen, gwella hyfywedd a sicrhau gwerth gwell am arian. Mae athrawon mewn ysgolion a cholegau yn cyfrannu at adroddiadau ar ddysgwyr. Mae athrawon yn cyfrannu at weithgareddau a phrosesau hunanarfarnu ar draws y sefydliadau. Mae'r trefniadau partneriaeth ysgol-coleg yn nodi rolau 	4% (7 ysgol)

Math	Nodweddion	Cyfran y ddarpariaeth ledled Cymru
	<p>rheoli wedi'u diffinio'n glir.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r canlyniadau'n mynd i'r sefydliad sy'n cyflwyno'r addysgu. • Mae gan ysgolion a cholegau drefniadau amserlen cyffredin. • Mae yna femoranda dealltwriaeth neu gytundebau lefel gwasanaeth rhwng darparwyr. 	
Confederasiwn	<ul style="list-style-type: none"> • Mae sefydliad unigol yn goruchwyllo ac yn cyfarwyddo gwaith ar draws pob sector. • Mae yna gyllidebau ar y cyd neu gyllidebau cyfrannol. • Mae yna drefniadau cyfreithiol clir gan gynnwys, er enghraifft, contractau, memorandwm dealltwriaeth a/neu gytundebau lefel gwasanaeth a chorff llywodraethol unigol. • Caiff darpariaeth unedau neu gyrsiau astudio ei rhesymoli ar draws darparwyr er mwyn osgoi dyblygu diangen, gwella hyfywedd a sicrhau gwerth gwell am arian. • Mae darparwyr yn delio â syniadau a phenderfyniadau yn gyfartal ac yn rhannu cyfrifoldebau. • Y confederasiwn yn hytrach na'r sefydliad unigol sy'n adrodd canlyniadau arholiadau. 	Dim

- 38 Mae'r tabl yn disgrifio'r nodweddion cyffredinol ar gyfer pob math o gydweithio. Efallai na fydd ysgol neu goleg mewn categori penodol yn dangos yr holl nodweddion a gallent fod yn bresennol yn ôl graddau amrywiol. Fodd bynnag, rydym wedi rhoi ysgolion a cholegau mewn categori sydd fwyaf addas ar eu cyfer.
- 39 Mae'n bwysig nodi bod y dosbarthiad o gymorth i ddisgrifio'r gwahanol fathau o gydweithio sy'n digwydd rhwng ysgolion a cholegau yng Nghymru ac nad yw'n gontinwwm datblygiadol sy'n dangos y modd y gallai cydweithio symud o 'gystadleuaeth neu arwahanrwydd' i 'gonffederasiwn'. Hefyd, mae darpariaeth drydyddol neu ganolfannau chweched dosbarth y tu allan i'r categorïau hyn, oherwydd bod y dosbarthiad yn ymwneud yn unig â'r mathau o gydweithio sy'n bodoli rhwng ysgolion a cholegau gwahanol.

Faint o gydweithio sy'n digwydd rhwng ysgolion a cholegau?

- 40 Er bod ychydig dros un o bob tair ysgol sydd â chweched dosbarth yn ymgymryd â gweithgareddau cydweithio, maent ond yn cynnwys tua 5% o gyfanswm dysgwyr dosbarthiadau chwech.
- 41 Mae llawer o'r ardaloedd yn y grŵp 'cystadleuaeth neu arwahanrwydd' yn ardaloedd gwledig lle mae cysylltiadau cludiant gwael ac arwahanrwydd yn ei gwneud yn anodd cydweithio. Fodd bynnag, mae'r grŵp hefyd yn cynnwys rhai ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig cywasgedig, lle nad yw'r pellter rhwng darparwyr yn ddigon i atal mwy o gydweithio. Mae'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau o 'gydweithredu' a 'chydlynu a chydweithio' mewn ardaloedd daearyddol mwy cywasgedig.
- 42 Mae gweithgarwch cydweithredol yn y grŵp 'cydweithredu' yn ymwneud â darparu nifer gyfyngedig o bynciau Safon Uwch ar gyfer niferoedd bach o ddysgwyr. Mae hyn fel arfer yn wir gyda chysiau sy'n gysylltiedig â phynciau a addysgir yng nghyfnod allweddol 4, fel seicoleg, cymdeithaseg, y gyfraith ac astudiaethau'r

cyfryngau, a chyrtsiau y mae ysgolion eu hunain yn ei chael yn anodd eu darparu. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn cynnwys pynciau eraill fel cerddoriaeth a rhai ieithoedd tramor modern sydd fel arfer yn denu niferoedd bach. Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu i ddarparwyr gronni adnoddau i ddarparu grwpiau addysgu hyfyw ar gyfer y pynciau hyn. Mae tua hanner y trefniadau yn y grŵp hwn yn gymharol newydd. Gwneir y ffurf fwyaf cyffredin o ddarpariaeth trwy gyflwyno sesiynau cyfnos. Mewn rhai o'r trefniadau, mae staff coleg yn teithio i'r ysgol i addysgu'r sesiynau. Ychydig iawn o weithgarwch cydweithredol a geir sy'n galluogi dysgwyr i ddilyn dewisiadau galwedigaethol.

- 43 Mae rhai o'r trefniadau yn y grŵp 'cydlynu a chydweithio' yn darparu ystod ehangach o bynciau Safon Uwch ac UG ac maent yn annog mwy o ddysgwyr i aros mewn addysg. Er hynny, mae llawer o'r pynciau yn dueddol o fod yn bynciau sy'n denu llai o ddysgwyr na'r pynciau mwyaf poblogaidd fel arfer. Yn y categori hwn, cynhelir y ddarpariaeth yn ystod y diwrnod ysgol.
- 44 Ar y cyfan, ychydig iawn o gydweithio sydd mewn cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r rhan fwyaf o'r ysgolion Cymraeg yn cydweithio gan na all colegau ddarparu addysgu a dysgu yn Gymraeg. Mewn rhai trefniadau, mae dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dilyn cyrsiau a addysgir yn Saesneg.

Beth yw effaith y gweithgareddau cydweithio?

- 45 Yng Nghymru gyfan, ychydig iawn o weithgarwch cydweithredol a geir rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau. Mae hyn yn cyferbynnu â swm cynyddol o gydweithio rhwng ysgolion a cholegau yn yr ystod oedran 14 i 16 a rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion.
- 46 Yn gyffredinol, ysgolion, yn hytrach na cholegau, sy'n elwa fwyaf ar gydweithio gan ei fod yn galluogi ysgolion i gadw dysgwyr a fyddai wedi gadael fel arall. Mae hyn wedyn yn cyfrannu at barhad dosbarthiadau chwech, ac o ganlyniad, mae'n helpu i ddiogelu cyflenwadau staffio ysgolion.
- 47 Gallai cydweithio rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau arwain at rywfaint o arbedion cost trwy ddileu grwpiau addysgu aneconomaidd. Fodd bynnag, nid yw'r manteision cost yn amlwg oherwydd gall y trefniadau cydweithredol olygu bod angen i ddysgwyr deithio ymhellach. Mae yna gostau ychwanegol hefyd o ran amser, ymdrech ac arian yn gysylltiedig â chynllunio, cydlynu, rheoli a gweinyddu trefniadau felly. Gan fod y trefniadau ond yn cynnwys rhai pynciau a nifer cymharol fach o ddysgwyr, mae costau'r trefniadau yn aml yn gorbwyso unrhyw fanteision. Yn y dyfodol, fe fydd yn her sicrhau na fydd y nod o gynyddu dewis ac ansawdd trwy gydweithio yn gwrthdaro â'r nod o resymoli darpariaeth er mwyn cynyddu cost effeithiolrwydd. Lle mae cydweithio yn cynnwys pynciau ymylol neu 'ychwanegol' yn unig a dim ond nifer fach o bynciau a dysgwyr, mae'n cynnig gwerth cyfyngedig am arian.
- 48 Er ei fod y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn, mae yna gydweithio cynyddol yng nghyfnod allweddol 4 er mwyn darparu mwy o ddewisiadau galwedigaethol. Mae hwn yn ddatblygiad allweddol wrth helpu dysgwyr i wneud dewisiadau gwell pan fyddant yn 16 oed. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo y gwnaethant y penderfyniad

anghywir pan oeddent yn 16 oed, ond pan fyddant wedi dechrau ar gwrs naill ai mewn chweched dosbarth ysgol neu goleg, maent yn ei chael yn anodd newid. Felly, mae cynyddu darpariaeth y dewisiadau galwedigaethol ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed, yn aml trwy gydweithio, yn debygol o fod yn ffactor allweddol wrth helpu dysgwyr i wneud dewisiadau gwell pan fyddant yn 16 oed. Lle mae'r ddarpariaeth hon yng nghyfnod allweddol 4 yn cynnwys cydweithio rhwng ysgolion a cholegau, mae'n rhoi:

- profiad gwell i ddysgwyr o waith galwedigaethol a gwaith yn gysylltiedig â swydd trwy weithio gyda staff cymwys mewn cyfleusterau arbenigol; ac
- ymwybyddiaeth well o'r ystod o ddewisiadau a llwybrau dilyniant sydd ar gael ar ôl 16.

49 Mae gweithgareddau cydweithredol ar gyfer yr ystod oedran 14 i 16 a gwaith datblygol y Rhwydweithiau Ardal Leol 14-19 yn dechrau gwella'r ymddiriedaeth rhwng ysgolion a cholegau. Pan gânt eu cyfuno ag effaith y System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol, gallai hyn arwain at fwy o gydweithio, ond mae yna lawer i'w wneud eto. Mae'n debygol y bydd y datblygiadau hyn yn effeithio ar wella dewis yn y ddarpariaeth mewn ardal yn hytrach nag arwain at weithgareddau mwy cydweithredol ar gyfer dysgwyr 16 i 19 oed.

50 Gellir sicrhau bod mwy o effeithlonrwydd trwy ad-drefnu'r ddarpariaeth ddysgu mewn ardal. Mae hyn yn cynnwys rhesymoli chweched dosbarth a darpariaeth AB, yn enwedig yn ardaloedd mwy trefol Cymru a lle mae dosbarthiadau chwech yn fach. Byddai'r effeithlonrwydd hwn yn arwain at ystod well o ddewisiadau ar gyfer dysgwyr a system fwy cost effeithiol. Byddai hefyd yn helpu i ddatrys rhai o'r materion o ran cludiant, trefn lywodraethol, cyllid ac amserlennu sy'n digwydd yn anochel mewn unrhyw weithgarwch cydweithredol. Dylid caniatáu i ddosbarthiadau chwech sy'n ddigon mawr i gadw grwpiau addysgu economaidd ac sy'n gallu sicrhau bod dysgwyr yn cyflawni safonau da i barhau. Fodd bynnag, dylent:

- roi profiad sylweddol i ddysgwyr yn yr ystod oedran 14 i 16 o ddewisiadau galwedigaethol a dewisiadau sy'n gysylltiedig â swyddi, gan gynnwys profiad o arddulliau addysgu a dysgu a chyfleusterau sydd ar gael mewn coleg neu mewn dysgu yn y gwaith;
- rhoi cyngor diduedd ac amhleidiol i ddysgwyr ynghylch pa gyrsiau i'w dewis pan fyddant yn 14 ac yn 16 oed;
- caniatáu mynediad llawn ac agored i'r coleg at unrhyw drefniadau sy'n cyfrannu at benderfyniadau dysgwyr ynghylch pa gyrsiau i'w dilyn pan fyddant yn 14 ac yn 16 oed; a
- sicrhau bod dysgwyr yn cael cynnig pecyn cyflawn o ddewisiadau pan fyddant yn 14 ac yn 16 oed sy'n trin pob un o'r dewisiadau yn deg ac yn gyson.

51 Mewn ardaloedd mwy gwledig, mae yna gwmpas cyfyngedig yn aml ar gyfer ad-drefnu dosbarthiadau chwech. Yn yr ardaloedd hyn, mae yna ddealltwriaeth ymhlyg fel arfer bod ysgolion yn gyffredinol yn canolbwyntio ar gyrsiau Safon Uwch a bod

colegau'n canolbwyntio ar gyrsiau galwedigaethol a chyrsgiau'n gysylltiedig â swyddi. Fodd bynnag, nid yw'r trefniant yn galluogi dysgwyr i ddilyn cymysgedd o ddewisiadau cyffredinol a galwedigaethol. Yn rhai o'r ardaloedd hyn, mae'r trefniant anffurfiol hwn yn chwalu wrth i fwy a mwy o ysgolion ddechrau cynyddu eu darpariaeth alwedigaethol mewn ymgais i gynnal niferoedd dosbarthiadau chwech.

52 Mewn nifer o ardaloedd gwledig lle mae dosbarthiadau chwech bach, mae'r ddarpariaeth yn aml wedi'i chyfyngu i ystod gyfyng o bynciau Safon Uwch ac mae'r grwpiau addysgu yn fach. Oni bai bod y ddarpariaeth yn yr ysgolion hyn o ansawdd uchel neu'i bod yn sicrhau dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd cyfrwng Saesneg, dylid rhesymoli'r ddarpariaeth yn yr ardal honno rhywfaint. Mae llawer o ysgolion yn yr ardaloedd hyn yn honni pe baent yn cael gwared ar ddsbarthiadau chwech yn yr ardaloedd hyn, na fyddai dysgwyr yn barod i deithio i ddarparwyr eraill ac y byddent yn 'tynnu'n ôl' o'r system. Er bod hyn yn wir am nifer fach o ddysgwyr, mae llawer eisoes yn dangos parodrwydd i deithio i golegau, ac o bryd i'w gilydd, i ddsbarthiadau chwech mwy er mwyn dilyn eu hastudiaethau. Ar y cyfan, nid yw darparwyr yn gwneud digon i archwilio ffyrdd dychmygus ac arloesol o gynyddu dewis dysgwyr mewn ardaloedd mwy gwledig trwy weithgareddau fel:

- defnyddio technolegau newydd gan gynnwys dysgu o bell, fideo-gynadledda ac 'amgylcheddau dysgu rhithwir'²;
- rhoi dysgwyr mewn sefydliadau eraill am gyfnodau;
- cefnogi dysgwyr i deithio i sefydliadau eraill; a
- darparu gweithdai coleg symudol sy'n symud rhwng safleoedd.

53 Prif nod cydweithio rhwng dosbarthiadau chwech ysgolion a cholegau yw cynyddu'r dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr trwy ddarpariaeth fwy cydlynol a chydlynus mewn ardal benodol. Fodd bynnag, dylid ystyried cydweithio yn ffordd o sicrhau mwy o ddewis yn hytrach nag yn ddiwedd y mater. Os yw cydweithio am ddigwydd, rhaid bod yna asesiad clir o'r manteision i ddysgwyr, nid yn unig o ran cynyddu'r dewis sydd ar gael iddynt, ond hefyd wrth helpu i gyflawni'r safonau cyflawniad uchaf. Mae'n amlwg ledled Cymru nad oes yna fodel darpariaeth unigol y gellir ei gymhwyso i bob amgylchiad. Mewn rhai ardaloedd, efallai mai 'cydweithredu' yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gynyddu dewis y dysgwr, tra gallai ad-drefnu a rhesymoli'r ddarpariaeth gyfredol fod yn angenrheidiol mewn ardaloedd eraill er mwyn sicrhau'r trefniant mwyaf effeithiol ac effeithlon.

54 Wrth ail-ffurfweddu darpariaeth mewn ardal, mae'n bwysig iawn ystyried ansawdd y ddarpariaeth a gynigir gan y gwahanol ddarparwyr. Mae graddau adroddiadau arolygu Estyn yn cynnig arwydd o ansawdd cymharol yr hyn a gynigir gan wahanol ddarparwyr. Mae adroddiadau ar ddarparwyr unigol ar gael yn www.estyn.gov.uk

² Systemau sy'n defnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngwrwd i gefnogi ystod o sefyllfaoedd dysgu o ystafelloedd dosbarth confensiynol i ddysgu oddi ar y lein ac ar-lein yw amgylcheddau dysgu rhithwir.

Pa mor dda y mae'r trefniadau cydweithio presennol yn gweithio?

55 Dim ond pedwar o'r 17 trefniant cydweithio yn y categorïau 'cydweithredu' a 'chydlynu' sydd wedi ffurfioli eu trefniadau trwy gytundebau partneriaeth, memoranda dealltwriaeth neu gytundebau lefel gwasanaeth. Hefyd, dim ond nifer tebyg sydd â chynlluniau strategol datblygedig. Mae chwech o'r trefniadau wedi penodi cydlynwyr. Ar y cyfan, mae tua hanner y trefniadau yn y ddau gategori hyn yn gweithio'n dda. Mae nodweddion trefniadaeth effeithiol yn cynnwys:

- trefniadau strategol a gweithredol sefydledig;
- cydlynnydd effeithiol yn ei swydd;
- rhaglen o gyfarfodydd rheolaidd, gydag agendâu a chofnodion, sy'n ymwneud â materion strategol a materion ansawdd; a
- pharodrwydd ar ran yr holl bartneriaid i gydweithio.

56 Fodd bynnag, yn y trefniadau eraill, mae yna rai diffygion pwysig:

- mae diffyg cynllunio strategol;
- mae cyfarfodydd wedi'u cyfyngu i faterion gweithredol; ac
- mae'r trefniadau yn rhy anffurfiol ac mae diffyg ffocws a diben clir iddynt.

57 Ychydig iawn sydd â gweithdrefnau priodol ar gyfer sicrhau ansawdd y trefniadau. Mae ysgolion a cholegau yn monitro presenoldeb ac ymddygiad yn effeithiol ac yn gweithredu'n briodol ar faterion pryder. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd fel arfer yn cynnwys darparwyr yn dilyn eu systemau eu hunain ac nid oes ymagwedd gytûn na chyffredin. Nid oes yna bolisïau a systemau cytûn sydd wedi'u diffinio'n glir ar gyfer hunanarfarnu. Mae rheolwyr fel arfer yn trafod materion ansawdd yn gyffredinol ac mewn ffordd anffurfiol. Er bod llawer o drefniadau cydweithio yn adolygu'r canlyniadau o ran canlyniadau arholiadau, ychydig iawn ohonynt sy'n ystyried faint o werth a ychwanegwyd. Lle mae ysgolion a cholegau'n cydweithio, nid ydynt yn gwneud digon o ddadansoddi ac arfarnu o ran:

- barn dysgwyr;
- ansawdd yr addysgu a'r dysgu sy'n digwydd mewn ystafelloedd dosbarth;
- barn rhanddeiliaid eraill fel rhieni a gofalwyr;
- gwybodaeth am faint o ddysgwyr sy'n aros ar y cyrsiau, faint sy'n symud ymlaen i gyrsiau addas wedyn a'r canlyniadau a gyflawnir gan ddysgwyr;
- gwerth am arian; ac
- effaith y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â thanberfformio.

- 58 Gallai trefniadau cydweithio arwain at fwy o ddewis, ond ychydig iawn o dystiolaeth a geir eu bod yn gwella safonau cyflawniad. Mae mentrau cyfredol yn cynnwys niferoedd bach o ddysgwyr. Yn gyffredinol, maent yn cyflawni canlyniadau sydd o leiaf yn briodol i allu'r dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw nifer fach ohonynt yn gwneud yn ddigon da.
- 59 Y ffactor pwysicaf sy'n pennu ansawdd y canlyniadau yw pa mor dda y caiff y trefniant ei arwain a'i reoli. Mae'n amlwg y gallai gweithgareddau cydweithio arwain at gynnydd mewn dewis i'r dysgwr, ond nid ydynt o angenrheidrwydd yn arwain at welliant mewn safonau.

Beth yw barn dysgwyr am eu profiadau mewn ysgolion a cholegau?

- 60 Fe wnaethom siarad â nifer o ddysgwyr mewn ysgolion ym mhob categori yn y tabl. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gyffredinol fodlon â'r dewisiadau a wnaethant. Mae'r dysgwyr hyn yn teimlo bod eu hysgol neu'u coleg yn eu cefnogi ac yn eu harwain yn dda, a bod ansawdd yr addysgu yn gyffredinol dda ac yn aml yn dda iawn. Mae tua dau o bob tri yn teimlo y cawsant wybodaeth ddefnyddiol am y cyrsiau y gwnaethant eu dewis, ond teimlai eraill nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth. Teimlai nifer fach o'r rheiny yn y grŵp olaf eu bod wedi cael cyngor unochrog a bod ysgolion yn eu hannog i aros ymlaen yn y chweched dosbarth mewn modd afresymol neu anfeirniadol.
- 61 Lle'r oedd dysgwyr wedi'u cynnwys mewn trefniadau cydweithio, roeddent:
- yn gwerthfawrogi'r cyfle i astudio cyrsiau newydd neu ychwanegol;
 - yn mwynhau'r gwahanol ddulliau o addysgu a dysgu mewn sefydliad gwahanol; ac
 - yn teimlo'u bod yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer addysg uwch.
- 62 Er hynny, roedd llawer o'r dysgwyr hyn yn feirniadol o'r anawsterau a grëwyd yn sgil gorfod teithio rhwng safleoedd ac amseroedd eu gwersi.

Pa ffactorau sy'n hyrwyddo ac yn rhwystro cydweithio?

- 63 Yn y Deyrnas Unedig, cafwyd nifer o ddarnau ymchwil ar y ffactorau sy'n hyrwyddo neu'n rhwystro cydweithio rhwng ysgolion a cholegau. Mae'r adroddiad hwn yn arfarnu pa rai yw'r ffactorau pwysicaf yng Nghymru.

Pa ffactorau anogodd ddatblygiad y trefniant cyfredol?

- 64 Y ffactor pwysicaf i ysgogi cydweithio yng Nghymru yw dylanwad **polisiâu a chyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ELWa**. Mae datblygiad Llwybrau Dysgu 14-19 a Rhwydweithiau Ardal Leol 14-19 yn annog ysgolion a cholegau i sefydlu trefniadau cydweithio, yn bennaf i fynd i'r afael ag 'Elfen Allweddol 2 – Dewis Ehangach a Hyblygrwydd' Llwybrau Dysgu. Un dylanwad allweddol yn y datblygiad hwn yw'r defnydd o'r Gronfa Fuddsoddi Gyffredin a grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn llawer o'r trefniadau cydweithio cyfredol a datblygol. Mae hyn wedi cynnig ffordd i ysgolion a cholegau gydweithio, sy'n aml yn galluogi'r partneriaid i oresgyn rhwystrau penodol fel talu am gludiant rhwng safleoedd. Er bod hyn yn ysgogi mwy o gydweithio, mae ei effaith wedi'i chyfyngu i'r niferoedd cymharol fach o ysgolion a cholegau sy'n cydweithio yn yr ystod oedran 16 i 19 ac i nifer fach o bynciau Safon Uwch. Yn ychwanegol, mae'n annhebygol y bydd darparwyr yn gallu cynnal y trefniadau hyn pan fydd y cyllid wedi dod i ben.
- 65 Yr ail ffactor pwysicaf sy'n annog cydweithio yw **ansawdd y berthynas** rhwng ysgolion a cholegau. Lle mae'r berthynas yn dda, mae ysgolion a cholegau'n ymddiried yn ei gilydd, maent yn deall ac yn gwerthfawrogi'r materion sy'n wynebu pob un ohonynt, ac maent yn barod i weithio gyda'i gilydd.
- 66 Mae ysgolion a cholegau'n fwy tebygol o gydweithio pan fyddant yn gweld bod angen **ehangu'r cwricwlwm** trwy gynyddu'r ystod o ddewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr. Mewn llawer o achosion, mae darparwyr am gynyddu'r ystod o ddewisiadau galwedigaethol, ond yn ymarferol, fel arfer mae cydweithio dim ond yn cynnwys darparu pynciau Safon Uwch newydd neu'r pynciau hynny sy'n denu niferoedd prin.
- 67 Un ffactor allweddol sy'n helpu hyrwyddo trefniadau cydweithio yw **lleoliad yr ysgolion a'r colegau** mewn ardal ddaearyddol gywasgedig. Mae yna anawsterau o hyd gyda chludiant yn yr ardaloedd mwy trefol hyn. Fodd bynnag, caiff yr anawsterau eu goresgyn yn haws oherwydd bod gan ddysgwyr fynediad gwell at gludiant cyhoeddus mewn ardaloedd trefol.
- 68 Un ffactor yn rhai o'r trefniadau yw disgwyliad yr ysgol o effeithiau'r **system ariannu gyffredin** ar gyfer dysgwyr ôl-16. Mae ysgolion yn ystyried y gallai'r system hon fygwth rhai o'r cyrsiau a ddarperir ganddynt ar hyn o bryd a gweld cydweithio gyda cholegau yn un ffordd o barhau i ddarparu'r cyrsiau hyn neu hyd yn oed i ddarparu cyrsiau newydd. Felly, mae ysgolion yn ystyried cydweithio yn ffordd o gadw dysgwyr yn eu dosbarth chwech.
- 69 Mae **Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (CCAH)** neu **Rwydwaith Ardal Leol 14-19** yn profi i fod yn ffactor pwysig, mewn nifer fach o achosion, wrth helpu i sefydlu trefniadau cydweithio. Fodd bynnag, effaith gyfyngedig a gafodd

CCAH yn gyffredinol wrth hyrwyddo cydweithio, ac nid yw'r rhan fwyaf o Rwydweithiau Ardal Leol 14-19 wedi cael amser eto i gael eu rhoi ar waith.

Pa ffactorau rwystrodd ddatblygiad y trefniant cyfredol?

- 70 **Cludiant**, o ran costau a'r amser a gymerir, yw'r ffactor pwysicaf sy'n rhwystro cydweithio. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr ardaloedd mwy gwledig, ond ystyrir hefyd ei fod yn ffactor allweddol sy'n rhwystro mewn rhai ardaloedd trefol hefyd. Caiff defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), er enghraifft, wrth ddarparu fideo-gynadledda a dysgu o bell, ei ystyried yn aml yn ffordd o helpu i oresgyn problemau cludiant, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig. Fodd bynnag, bu TGCh yn ffactor anarwyddocaol ar y cyfan wrth helpu i gynyddu cydweithio.
- 71 Ffactor sydd bron yr un mor bwysig â chludiant yw'r **gystadleuaeth** am ddysgwyr sy'n deillio o gyllid sy'n seiliedig ar nifer y dysgwyr. Mae ysgolion yn benodol yn ystyried bod cynnal chweched dosbarth yn hanfodol bwysig i'w dyfodol yn y tymor hir yn gyffredinol. Maent yn teimlo y bydd colli rhai myfyrwyr chweched dosbarth yn arwain yn anochel at golli staff. Mae ysgolion yn ofni y gallai hyn arwain at ddirywiad di-droi'n-ôl i'r chweched dosbarth, a allai yn ei dro effeithio ar ran 11 i 16 yr ysgol yn ogystal, wrth i rieni ystyried anfon eu plant i ysgolion sydd â chweched dosbarth mwy llwyddiannus. Mae ysgolion yn ystyried bod chweched dosbarth yn bwysig wrth helpu recriwtio staff o ansawdd gwell a fyddai eisiau addysgu chweched dosbarth ac a fyddai'n denu rhieni i ddewis yr ysgol. Teimla llawer o ysgolion na fyddent yn gallu cynnal safonau pe bai eu chweched dosbarth yn cau. Fodd bynnag, nid yw ysgolion sydd heb ddosbarthiadau chwech yng Nghymru yn cyflawni canlyniadau gwaeth na'r rheiny sydd â dosbarthiadau chwech ac mae llawer yn cyflawni gryn dipyn yn well. Mewn rhai achosion, gall cael gwared ar chweched dosbarth alluogi ysgolion i gyfeirio mwy o adnoddau ac egni tuag at gyfnodau allweddol 3 a 4, yn enwedig lle nad yw perfformiad yn y cyfnodau allweddol hyn gystal ag y dylai fod neu lle mae yna ffactorau heriol sy'n effeithio ar berfformiad.
- 72 Mewn llawer o achosion, mae ysgolion yn dymuno cadw eu chweched dosbarth er mwyn cadw niferoedd yn hytrach na mynd i'r afael ag **anghenion dysgwyr**. Mae llawer o ddysgwyr yn elwa ar gyrsiau Safon Uwch mewn dosbarthiadau chwech ysgolion ac mae'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau chwech yn cyflawni safonau da neu dda iawn. Fodd bynnag, mae dosbarthiadau chwech yn gyffredinol dim ond yn darparu ar gyfer tua hanner y bobl ifanc 16 i 19 oed yng Nghymru, ac mae yna nifer sylweddol o ddysgwyr mewn dosbarthiadau chwech nad ydynt ar y cyrsiau sydd orau ar eu cyfer.
- 73 Un ffactor sy'n llesteirio mwy o gydweithio yw **ymreolaeth** ysgolion a cholegau unigol. Nid yw llawer o ysgolion a cholegau yn teimlo'r angen i gydweithio a gallant barhau fwy neu lai yn yr un ffordd ag y gwnaethant bob amser. Caiff hyd yn oed yr ysgolion a'r colegau hynny sy'n dymuno cydweithio mwy eu rhwystro yn aml gan amharodrwydd eraill yn eu hardal.
- 74 Un ffactor pwysig yw absenoldeb **corff strategol** sydd â'r grym a'r adnoddau i sefydlu'r ddarpariaeth ddysgu fwyaf effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal benodol. Er bod CCAH a Rhwydweithiau Ardal Leol 14-19 yn dod ag ysgolion a cholegau at ei

gilydd, gall y cyrff cydlynu hyn ond bod yn ddylanwadol os yw pob un o'r darparwyr yn barod i gydweithio neu lle mae yna gyllid penodol, fel y Gronfa Fuddsoddi Gyffredin, i dalu am weithgareddau felly. Yn yr un modd, bydd y prosiectau Braenaru Daearyddol yn awgrymu dewisiadau i wella'r rhwydwaith dysgu mewn ardal, ond ni allant sicrhau bod darparwyr yn gweithredu'r dewisiadau hyn. Nid oes corff strategol i roi arweinyddiaeth a chyfarwyddyd, lle mae'r dewis o gyrsiau i ddysgwyr yn gyfyngedig gan nad yw ysgolion a cholegau yn barod i gydweithio â'i gilydd. Ni all AALLau ymgymryd â'r rôl hon gan fod ysgolion yn ymreolaethol yn bennaf ac mae colegau y tu allan i'w dylanwad.

75 Mae gan y Rhwydweithiau Dysgu Ardal 14-19 gyfrifoldeb i gynllunio darpariaeth sy'n mwyhau'r dewis i ddysgwyr ac yn cynnig gwerth am arian trwy leihau dyblygu diangen. Fodd bynnag, nid yw **mecanweithiau cyllid** presennol yn eu helpu i wneud hyn, oherwydd:

- bod gan y ffrydiau cyllid ar gyfer cyn-16 ac ôl-16 ofynion gwahanol sy'n cynyddu baich biwrocratiaeth ac sydd â'r potensial ar gyfer cyllid dwbl;
- nid yw'r Rhwydweithiau Ardal Leol 14-19 yn rheoli cyllid craidd, ond mae'n rhaid iddynt wneud cais yn unigol am grantiau penodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu ELWa; a
- does neb mewn sefyllfa i warantu gweithredu cynlluniau sy'n cynnwys darparwyr, fel colegau AB a darparwyr dysgu yn y gwaith, sydd y tu allan i awdurdodaeth AALLau.

76 Mae yna ffactorau eraill sy'n rhwystro datblygiad trefniadau cydweithio yng Nghymru, ond nid ydynt mor bwysig â'r rheiny a restrir uchod. Dyma'r ffactorau:

- anawsterau amserlennu;
- diffyg ymddiriedaeth rhwng ysgolion a cholegau;
- pryderon staff ynghylch rhagweld colli swyddi o ganlyniad i fwy o gydweithio;
- amseroedd tymor gwahanol rhwng ysgolion a cholegau;
- diffyg ymwybyddiaeth dysgwyr am yr ystod lawn o ddewisiadau sydd ar gael yn y cyfnod ôl-16; a
- diffyg cyngor diduedd ac amhleidiol i ddysgwyr pan fyddant yn gwneud eu dewisiadau yn 14 ac yn 16 oed³.

Casgliad

77 Mae cyflwyno menter Llwybrau Dysgu 14-19 a'i ffrydiau cyllid cysylltiedig wedi helpu i wneud darparwyr yn fwy rhagweithiol yn eu trefniadau ar gyfer gwneud y cwricwlwm

³ Dylai cyflwyno'r hyfforddwyr dysgu fel rhan o fenter Llwybrau Dysgu 14-19 helpu i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.

Cydweithio rhwng ysgolion a dosbarthiadau chwech a Cholegau Addysg Bellach i gyflwyno darpariaeth hyblyg o ansawdd uchel sy'n ehangu dewis ac yn sicrhau gwerth am arian

yn fwy ymatebol i anghenion dysgwyr. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys cydweithio rhwng ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, mae cynnydd yn dal i fod yn gymharol araf, ac mae llawer o gyfyngiadau sy'n parhau i rwystro momentwm newid.